# Llywodraeth Cymru
# Adroddiad y Gyllideb Derfynol 2026-27

Ionawr 2026

---

Mae'r Gyllideb Derfynol yn nodi cynlluniau gwariant a chyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53682, ISBN digidol 978-1-83715-941-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys

Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

1. Crynodeb Gweithredol

2. Y Cyd-destun Cyllidol ac Economaidd

3. Cyllid Llywodraeth Cymru

4. Cynlluniau Gwario Diwygiedig Llywodraeth Cymru

Atodiad A: Trethi Datganoledig ac Addasiadau i'r Grant Bloc

# Rhagair
## gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg



Rydym yn cyhoeddi Cyllideb Derfynol 2026-27 ar drothwy misoedd olaf y Chweched Senedd. Bydd yn darparu'r cyd-destun cyllidol ar gyfer Senedd newydd ddiwygiedig.

Dyma Gyllideb sydd wedi'i ffurfio drwy gydweithio a chydweithredu ac mae'n dangos cryfder y Senedd – pleidiau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r adnoddau hanfodol sydd eu hangen ar bobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r Gyllideb hon yn buddsoddi £27.5bn yn 2026-27. Mae hyn £1.2bn yn fwy nag sydd ar gael yn 2025-26, a £400m yn fwy nag a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft yn yr hydref.

Mae'r Gyllideb Derfynol yn benllanw misoedd lawer o graffu, ymgysylltu a chydweithio. Hoffwn ddiolch i holl Aelodau'r Senedd am eu gwaith craffu manwl ar y Gyllideb Ddrafft ac am weithio gyda ni i sicrhau Cyllideb Derfynol fwy uchelgeisiol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael. Diolch hefyd i'r holl bleidiau am fod yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau ewyllys da am y Gyllideb, gan ddangos bod y Senedd yn benderfynol o weld y Gyllideb yn llwyddo.

Rwy'n ddiolchgar i Blaid Cymru am y trafodaethau adeiladol a arweiniodd at gytundeb i alluogi'r gyllideb hon i basio. Mae'n golygu bod £180m o gyllid ychwanegol ar gyfer y gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol a chynnydd o 4.5% i'r setliad llywodraeth leol er mwyn i gynghorau fuddsoddi mewn addysg, gofal cymdeithasol a'r holl wasanaethau hanfodol eraill sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau pobl.

Mae'r Gyllideb Derfynol hon hefyd yn dangos ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a thwf economaidd. Yr unig reswm y mae hyn yn bosibl yw bod gennym fwy na £1bn o gyllid newydd yn 2026-27, ar ben y cynnydd o £1.6bn sydd wedi'i gynnwys yng Nghyllideb y flwyddyn gyfredol. Daeth y cynnydd hwn am fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn San Steffan wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yng Nghymru.

Dyma'r Gyllideb olaf y byddaf yn ymwneud yn uniongyrchol â hi. Mae wedi bod yn fraint bod yn rhan o'r gwaith heriol – ond hanfodol bob amser – o benderfynu sut i ddosbarthu gwariant cyhoeddus gwerthfawr, dros y degawd diwethaf a chyn hynny.

Wrth i Gymru baratoi ar gyfer y dewisiadau democrataidd sydd o'n blaenau, mae'r Gyllideb hon yn rhoi sicrwydd i wasanaethau cyhoeddus heddiw ac yn rhoi'r llwyfan i'r llywodraeth nesaf osod ei blaenoriaethau ei hun ar gyfer y dyfodol.

**Mark Drakeford**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
Ionawr 2026

# 1. Crynodeb Gweithredol

## Trosolwg

Mae'r Gyllideb hon yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i wasanaethau cyhoeddus, gan fuddsoddi mwy na £27.5bn i gefnogi cymunedau ledled Cymru. Mae'n adeiladu ar y penderfyniadau gwario a wnaethom yn 2025-26 ac yn ailddatgan ein blaenoriaethau a nodir yn y Gyllideb Ddrafft Amlinellol a Manwl a gyhoeddwyd yn yr hydref. Dyma gyllideb olaf y Chweched Senedd a'r gyllideb olaf cyn i Senedd ddiwygiedig gael ei hethol ym mis Mai 2026.

Y Gyllideb Ddrafft oedd cam cyntaf proses y gyllideb. Mae'r Gyllideb Derfynol hon wedi'i sicrhau drwy gydweithio, ymgysylltu ac ystyried yn llawn y gwaith craffu manwl sydd wedi digwydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae cytundeb y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn golygu y bydd mwy o gyllid ar gyfer y meysydd blaenoriaeth, sef y GIG a llywodraeth leol. Rydym hefyd yn darparu cynnydd i bob Prif Grŵp Gwariant (MEG) i adlewyrchu rhagolygon uwch y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ynghylch chwyddiant a thwf cyflogau.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r newidiadau a'r penderfyniadau sydd wedi'u gwneud ers y Gyllideb Ddrafft. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd yn yr hyn y gallwn ei wario drwy addasiadau i gyllid yn dilyn Cyllideb Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2025 a rhagolwg trethi datganoledig wedi'i ddiweddaru gan yr OBR. Mae'r Gyllideb Derfynol hon yn dyrannu £400m o gyllid ychwanegol.

## Cyllid Llywodraeth Cymru

Y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru drwy refeniw trethi datganoledig a grant bloc Llywodraeth y DU ar gyfer 2026-27 yw £27.7bn. Mae hyn yn cynnwys £24bn o gyllid adnoddau a £3.7bn o gyllid cyfalaf. Felly, mae cyfanswm o £176m yn fwy nag a oedd ar gael adeg y Gyllideb Ddrafft.

Roedd Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU ym mis Mehefin 2025 yn nodi setliadau amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru, hyd at 2028-29 ar gyfer adnoddau a 2029-2030 ar gyfer cyfalaf. Cadarnhaodd Cyllideb y DU ar 26 Tachwedd gyllid ychwanegol o £508m i Lywodraeth Cymru dros gyfnod yr Adolygiad Gwariant.

Caiff y newidiadau i'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn 2026-27 eu hamlinellu ym mhennod 3.

## Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru

Rydym yn buddsoddi £27.5bn yn y Gyllideb Derfynol hon i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys £23.9bn o gyllid adnoddau a £3.6bn o gyllid cyfalaf. Mae £118m yn mynd i gyrff a ariennir yn

uniongyrchol[1]. Fel rhan o gytundeb y gyllideb gyda Phlaid Cymru, bydd £120m o gyllid cyfalaf ar gael i'r llywodraeth nesaf ei ddyrannu.  Felly, nid yw hwn wedi'i ddyrannu yn y Gyllideb Derfynol.

Rydym yn buddsoddi £400m yn fwy yn y Gyllideb Derfynol hon o'i gymharu â'r Gyllideb Ddrafft. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o £1.2bn yn fwy o arian yn cael ei fuddsoddi drwy'r Gyllideb Derfynol hon nag yn 2025-26.

Mae rhagor o gyllid yn cael ei fuddsoddi yn y GIG ac mewn llywodraeth leol i gefnogi'r gwasanaethau y mae pobl dibynnu arnynt ac yn eu defnyddio bob dydd. Mae'r holl adrannau yn gweld cynnydd yn y cyllid sydd ar gael iddynt. Ar gyfer meysydd heblaw iechyd a llywodraeth leol, mae'r cyllidebau adnoddau yn cynyddu i adlewyrchu rhagolygon diweddaraf yr OBR ynghylch chwyddiant a thwf cyflogau ar gyfer 2026-27 o fis Tachwedd 2025. Mae cyllid adnoddau a chyfalaf ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau allweddol eraill, gan gynnwys gwasanaethau bysiau, prentisiaethau, addysg bellach, atal llifogydd a chynnal a chadw adeiladau ysgolion.

**Ffigur 1.1: Dyraniadau Adnoddau Cyllidol a Chyfalaf Cyllideb Derfynol 2026-27**

| | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)** | **Adnoddau Cyllidol** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 12,602,651 | 625,750 | 13,228,401 |
| Tai a Llywodraeth Leol (ac eithrio ardrethi annomestig) | 5,877,430 | 1,313,081 | 7,190,511 |
| Addysg | 1,865,169 | 401,990 | 2,267,159 |
| Trafnidiaeth | 706,194 | 561,373 | 1,267,567 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 596,535 | 332,357 | 928,892 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 496,986 | 346,239 | 843,225 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 144,194 | 19,778 | 163,972 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 453,600 | 21,296 | 474,896 |
| **Cyfanswm** | **22,742,759** | **3,621,864** | **26,364,623** |

[1] Y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yw: Comisiwn y Senedd; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Swyddfa Archwilio Cymru; a'r Comisiwn Etholiadol.

## Proses y Gyllideb

Bydd Cyllideb Derfynol 2026-27 yn cael ei gosod yn unol â'r trefniadau a nodir ym Mhrotocol y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Cafodd Cyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27 ei chyhoeddi ar 14 Hydref 2025, a chafodd y Gyllideb Ddrafft Fanwl ei chyhoeddi ar 3 Tachwedd. Croesawodd y Senedd y drefn o gynnal proses gyllidebol dau gam unwaith eto, ac amser ychwanegol ar gyfer craffu. Cynhaliwyd proses graffu'r Senedd rhwng 14 Hydref a 15 Rhagfyr ac aeth pob un o Ysgrifenyddion y Cabinet i bwyllgorau portffolio i roi tystiolaeth. Caiff ymatebion i adroddiadau'r pwyllgorau eu cyhoeddi cyn y bleidlais ar y Gyllideb Derfynol ar 27 Ionawr.

Mae craffu yn rhan hanfodol o adeiladu'r Gyllideb Derfynol. Mae'r ymgysylltu adeiladol, yr her a'r argymhellion gan bwyllgorau'r Senedd wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y Gyllideb Derfynol. Rhai o'r prif faterion a amlinellwyd yn y gwaith craffu oedd cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'r sefyllfa heriol sy'n wynebu'r awdurdodau lleol, yn ogystal â phwysau sy'n deillio o ragolygon chwyddiant uwch. Ymdriniwyd â'r rhain yn y Gyllideb Derfynol.

## Effeithiau penderfyniadau gwario

Mae cyllideb yn cyflwyno cyfres o ddewisiadau, ac mae ein penderfyniadau yn cael eu llywio gan yr angen i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a buddsoddi yn llesiant hirdymor cymunedau. Mae pob un o'r penderfyniadau a wnawn yn golygu bod cyllid ar gael ar gyfer un maes ond mae'n golygu hefyd fod llai o gyllid ar gael i feysydd eraill.

Yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) yw'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i asesu effaith ein penderfyniadau gwario, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb, cynaliadwyedd a llesiant. Mae'n ein helpu i ddeall yn well sut mae'r gyllideb yn debygol o effeithio ar wahanol grwpiau o bobl yng Nghymru ac yn helpu i sicrhau bod ein cyllid yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Eleni rydym wedi gwneud newidiadau i'n proses SIIA i ddatblygu dull mwy cydweithredol i asesu effeithiau strategol a thrawsbynciol penderfyniadau gwario yn well. Cyhoeddwyd SIIA interim adeg y Gyllideb Ddrafft. Ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol hon, rydym yn cyhoeddi SIIA y Gyllideb Derfynol sy'n darparu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddeall ein penderfyniadau cyllidebol.

# 2. Y Cyd-destun Cyllidol ac Economaidd

## Trosolwg

Cyhoeddwyd Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025 ar 14 Hydref 2025 ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27. Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon yn crynhoi'r datblygiadau o ran amodau economaidd a'r datblygiadau yn y rhagolygon economaidd a chyllidol sydd wedi digwydd ers hynny, er mwyn rhoi cyd-destun wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2026-27.

## Diweddariad economaidd

Rhagwelir y bydd yr allbwn economaidd, fel y'i mesurir gan gynnyrch mewnwladol crynswth (GDP), yn tyfu 1.3% ar gyfer 2025-26 yn ôl rhagolwg diweddaraf yr OBR ym mis Tachwedd, sy'n gynnydd o 0.1% ers rhagolwg mis Mawrth. Disgwylir i dwf yn 2026-27 fod yn 1.5%, sy'n lleihad o 0.4 pwynt canran ers rhagolwg mis Mawrth.

O bell ffordd, y newid economaidd mwyaf arwyddocaol yn rhagolwg economaidd yr OBR oedd israddio'r rhagolygon ar gyfer twf drwy ostyngiad yn y duedd cynhyrchiant (yr allbwn fesul awr a weithir) o 1.3% y flwyddyn i 1% y flwyddyn. Y diwygiad hwn yw'r diweddaraf ymhlith sawl un a wnaed ers 2010 gan fod yr alldro cynhyrchiant wedi methu â bodloni disgwyliadau'r OBR. Ar gyfartaledd, roedd twf cynhyrchiant o 2.1% yn y flwyddyn cyn yr argyfwng ariannol, 0.6% yn y degawd ar ôl yr argyfwng hwnnw a 0.4% yn y cyfnod rhwng 2020 a 2024.

Er gwaethaf yr israddio, rhagolwg canolog newydd yr OBR yw y bydd twf cynhyrchiant yn mwy na dyblu o'i gymharu â'r gyfradd yn y cyfnod ar ôl 2020 ac y bydd y perfformiad yn sylweddol well nag yn y degawd cyn y pandemig. Mae'r cynnydd a ragwelir yn adlewyrchu disgwyliad y bydd effeithiau siociau diweddar, gan gynnwys ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'r pandemig, yn pylu. Mae mabwysiadu deallusrwydd artiffisial (AI) yn debygol o roi hwb cymedrol i gynhyrchiant dros y pum mlynedd nesaf, ac mae disgwyl mwy o effaith yn y tymor hir.

Nododd yr OBR fod ei rhagolwg is newydd ar ben uchaf ystod o ragolygon cynhyrchiant gan fanciau buddsoddi a melinau trafod. Mae'n pwysleisio bod y rhagolwg yn ansicr iawn, gan nodi bod senario well na’r disgwyl yn bosibl, lle mae twf cynhyrchiant blynyddol cyfartalog o 1.5%. Yn yr un modd, mae senario waeth na'r disgwyl yn bosibl, lle mae twf cynhyrchiant blynyddol cyfartalog o 0.3% tan 2030.

Mae newidiadau mewn cynhyrchiant yn un o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar safonau byw fel y'u mesurir gan incwm gwario gwirioneddol aelwydydd (RHDI). Yn anochel, mae'r dirywiad yn y rhagolygon cynhyrchiant wedi gwanhau'r rhagolygon ar gyfer RHDI. Bydd penderfyniadau treth incwm a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU ym mis Tachwedd – yn fwyaf nodedig estyn y cyfnodau rhewi ar gyfer trothwyon treth bersonol a chyfraniadau Yswiriant Gwladol gweithwyr – yn effeithio ar incwm gwario aelwydydd. Yn 2026-27,

disgwylir i RHDI y pen gynyddu 0.3% yn unig. Ni ddisgwylir unrhyw welliant ar y gyfradd hon yn y blynyddoedd dilynol hyd at 2030-31.

Ers cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2026-27, mae'r farchnad lafur wedi parhau i ddangos arwyddion o wendid. Mae nifer y gweithwyr yn y sector preifat yng Nghymru a'r DU yn is o'i gymharu â'r flwyddyn diwethaf, ac mae achosion o golli swyddi yn dal i fod yn fwyaf amlwg yn y diwydiannau sy'n talu llai o gyflog. Mae rhagolwg diweddaraf yr OBR yn disgwyl gostyngiadau cymedrol pellach mewn cyflogaeth a chynnydd cymedrol mewn diweithdra yn 2026-27.

Cynyddodd chwyddiant fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) 3.2% yn y flwyddyn hyd at fis Tachwedd 2025. Yn 2026-27, mae'r OBR yn disgwyl cyfradd gyfartalog o 2.2% ar gyfer chwyddiant CPI a'r datchwyddydd GDP, sydd 0.3 a 0.6 pwynt canran yn uwch, yn y drefn honno, na'r rhagolwg ym mis Mawrth ar gyfer 2026-27.

Yn sgil rhagolygon ar gyfer chwyddiant is, pleidleisiodd mwyafrif ar Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr i ostwng Cyfradd y Banc i 3.75% o 4% ar 18 Rhagfyr 2025.
Mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd hon yn cael ei gostwng ymhellach yn 2026-27, a hynny yn ôl pob tebyg i rhwng 3% a 3.5%. Ers mis Hydref 2025, mae costau benthyca Llywodraeth y DU, fel y'u mesurir gan yr arenillion giltiau 10 mlynedd, wedi amrywio o fewn ystod gul rhwng 4.4% a 4.6%. Mae rhagolwg yr OBR yn dangos cynnydd bach mewn costau benthyca yn 2026-27.

## Diweddariad cyllidol

Mae mandad cyllidol Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol iddi dalu am ei gwariant presennol drwy refeniw o drethi erbyn 2029-30. Cyn ystyried y mesurau polisi a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU ym mis Tachwedd, barnodd yr OBR y byddai'r mandad cyllidol yn cael ei fodloni gan hyblygrwydd cyllidol o tua £4bn neu 0.1% o GDP. Er gwaethaf y rhagolwg twf economaidd is ar gyfer y tymor canolig oherwydd israddio cynhyrchiant, cafodd yr effaith hon lai o effaith gyffredinol ar y rhagolygon cyllidol oherwydd ei bod yn cael ei gwrthbwyso gan chwyddiant ychydig yn uwch a thwf sy'n deillio'n bennaf o gyflogau, sy'n roi hwb i refeniw trethi. Wedi dweud hynny, roedd hyn yn dal i fod yn sylweddol is na'r hyblygrwydd cyllidol o £10bn (0.3% o GDP) yn Natganiad y Gwanwyn 2024, a oedd ei hun yn fach yn ôl safonau hanesyddol.

O ganlyniad i'r newidiadau i drethi a gwariant a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU, dylai'r mandad cyllidol gael ei fodloni gan hyblygrwydd cyllidol uwch, sydd bellach yn £22bn neu 0.6% o GDP yn 2029-30. Mae'r ffin cyfeiliornad tua thri chwarter yr hyblygrwydd cyfartalog a ganiatawyd gan Gangellorion blaenorol. Galluogir yr holl addasiadau i gyflawni'r gwarged o £22bn drwy fesurau treth sy'n arwain at gynnydd o £26bn yn hyblygrwydd cyllidol presennol y gyllideb. Mae newidiadau mewn gwariant yn arwain at ostyngiad o £4bn yn hyblygrwydd cyllidol presennol y gyllideb.

Yn ogystal â'r mandad cyllidol, mae gan Lywodraeth y DU dargedau cyllidol atodol ynghylch asedau ariannol net y sector cyhoeddus a gwariant lles. Ym marn yr OBR, mae'r ddau

darged atodol yn fwy tebygol na pheidio o gael eu cyflawni, er yr amcangyfrifir y bydd yr hyblygrwydd cyllidol ar gyfer cyflawni'r targed lles yn fach iawn.

Penderfyniad gwario arwyddocaol yng Nghyllideb y DU oedd dileu'r terfyn dau blentyn o fewn Credyd Cynhwysol o fis Ebrill 2026 ymlaen. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd ei ddileu yn arwain at leihad o 450,000 erbyn 2029-30 yn nifer y plant sydd mewn tlodi. Yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd tua 70,000 o blant yn elwa.

Yn gyffredinol, disgwylir i gyfanswm gwariant cyhoeddus y DU gynyddu o 44% o GDP yn 2024-25 i gyrraedd uchafbwynt o 44.8% o GDP yn 2027-28. Rhagwelir y bydd y cyfanswm hwn yn gostwng i 44.3% o GDP yn 2030-31. Byddai hyn 5.2 pwynt canran yn uwch na'i lefel cyn y pandemig yn 2019-20.

Newid allweddol o ran treth yw rhewi trothwyon treth bersonol a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr am dair blynedd arall o 2028-29 tan 2031-32. Cafodd trothwyon eu rhewi gyntaf ym mis Ebrill 2022. Bydd cyfraniadau Yswiriant Gwladol bellach yn gymwys i gyfraniadau pensiwn aberthu cyflog hefyd, o 2029-30 ymlaen. Mae cynnydd hefyd mewn cyfraddau treth ar incwm o ddifidendau o fis Ebrill 2026 ymlaen. Bydd cyfraddau treth incwm o eiddo a chynilion hefyd yn cynyddu o fis Ebrill 2027 ymlaen.

Mae'r cynnydd mewn trethi a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU wedi'i gynnwys tuag at ddiwedd cyfnod rhagolwg yr OBR, sef blynyddoedd pedwar a phump. Yn 2026-27, dim ond £0.7bn sy'n cael ei godi mewn trethi ychwanegol, sy'n cael ei wrthbwyso'n llwyr gan £6.6bn mewn gwariant cyhoeddus ychwanegol. Ond erbyn 2030-31, disgwylir i'r mesurau treth hyn godi £30bn mewn refeniw, sy'n cyfateb i oddeutu 0.8% o GDP. Disgwylir i gyfran yr incwm gwladol a geir drwy drethi Cyfrifon Gwladol gynyddu o 34.7% yn 2024-25 i 38.3% yn 2030-31, sy'n uchafswm hanesyddol a 5.4 pwynt canran yn uwch na'r lefel cyn y pandemig, sef 32.9%.

## Y goblygiadau i gyllid Llywodraeth Cymru


Roedd cyllid ychwanegol ar gyfer 2026-27 yng Nghyllideb y DU ar 26 Tachwedd 2025, yn ychwanegol at yr hyn a ddeilliodd o'r Adolygiad Gwariant ac a gynhwyswyd yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Roedd newidiadau hefyd i hyblygrwydd cyllidol Llywodraeth Cymru a newidiadau hefyd i'r rhagolygon ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc yn 2026-27. Esbonnir y rhain ym mhennod 3.

Dangosir y cyllidebau adnoddau cyllidol a chyfalaf cyffredinol hanesyddol a rhagamcanol yn ffigurau 2.1 a 2.2. Yn gyffredinol, mae'r gyllideb adnoddau cyllidol 1.6% yn uwch mewn termau real yn 2026-27 o'i gymharu â 2025-26. Disgwylir iddi barhau i gynyddu mewn termau real dros y ddwy flynedd sy'n weddill o gyfnod yr Adolygiad Gwariant, er ar gyfradd twf real ychydig yn is. Yn seiliedig ar ragdybiaethau Llywodraeth y DU ar gyfer gwariant cyhoeddus disgresiynol yn gyffredinol, disgwylir twf tebyg ar gyfer gweddill y degawd.

Mae'r gyllideb gyfalaf gyffredinol 2.5% yn uwch mewn termau real yn 2026-27 nag yn 2025-26. Fodd bynnag, disgwylir iddi ostwng am weddill y degawd. Yma, mae'r amcanestyniadau yn tybio bod cyfleuster benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n llawn.


Yn y senario honno, cyrhaeddir y terfyn cyffredinol yn 2030-31, sy'n cyfrif am y gostyngiad cyffredinol yn y flwyddyn honno.

**Ffigur 2.1: Cyllideb Adnoddau Cyllidol Llywodraeth Cymru mewn termau real (£m)**




Nodyn: eithro gwariant COVID

**Ffigur 2.2: Cyllideb Gyfalaf Gyffredinol Llywodraeth Cymru mewn termau real (£m)**



## 3. Cyllid Llywodraeth Cymru

### Trosolwg


Mae Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cael eu hariannu drwy gyfuniad o refeniw a gynhyrchir gan drethi datganoledig a'r grant bloc gan Lywodraeth y DU. Mae Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol a'r Adroddiad Polisi Trethi yn rhoi manylion am y ffynonellau cyllid hyn a'r penderfyniadau polisi sydd ar gael i Weinidogion Cymru drwy drethiant datganoledig. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r newidiadau i'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Y cyllid sydd ar gael inni yn 2026-27 yw £27.6bn.[2] Mae hyn yn cynnwys £22.1bn o'r grant bloc, £4.4bn o drethi datganoledig, £1.1bn o ardrethi annomestig a £165m o fenthyca cyfalaf. Yn gyffredinol, mae £176m yn fwy o gyllid ar gael yn y Gyllideb Derfynol nag yn y Gyllideb Ddrafft.

Cyhoeddwyd cyllid adnoddau canlyniadol o £186m yng Nghyllideb y DU ym mis Tachwedd, wedi'i wrthbwyso ychydig gan gynnydd o £13m mewn addasiadau i'r grant bloc. Y tu allan i'r bloc, mae cyllid o drethi yn gostwng £26m,ac mae'r cynnydd a ragwelir mewn refeniw trethi datganoledig yn cael ei wrthbwyso gan gynllun rhyddhad trosiannol ar gyfer ardrethi annomestig. Yn gyffredinol, mae hyn yn gadael cynnydd o £147m mewn cyllid adnoddau.

Darparodd Cyllideb y DU hefyd £14m o gyllid cyfalaf canlyniadol sydd, ynghyd â chynnydd o 10% yn nherfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru, yn golygu cynnydd o £29m yn y gyllideb gyfalaf gyffredinol.

**Ffigur 3.1: Y gwahanol elfennau cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru**




[2] Nid yw hyn yn cynnwys adnoddau anghyllidol, AME adnoddau ac AME cyfalaf.

**Ffigur 3.2: Elfennau Cyllido Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27, y Gyllideb Derfynol a newidiadau**

| ELFENNAU CYLLIDO CYMRU<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2026-27 | Cyllideb Derfynol 2026-27 | Newidiadau |
|---|---|---|---|
| **ADNODDAU CYLLIDOL** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | 18,323,386 | 18,496,826 | 173,440 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,178,000 | 1,101,000 | -77,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 3,926,538 | 3,976,926 | 50,388 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 400,671 | 399,017 | -1,654 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 34,458 | 36,563 | 2,105 |
| Ad-dalu prifswm benthyca | -14,898 | -14,898 | 0 |
| **CYFANSWM ADNODDAU CYLLIDOL** | **23,848,155** | **23,995,434** | **147,279** |
| | | | |
| **CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyfalaf Cyffredinol | 3,427,685 | 3,441,441 | 13,756 |
| Trafodiadau Ariannol | 131,746 | 131,746 | 0 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 150,000 | 165,000 | 15,000 |
| **CYFANSWM DEL CYFALAF A BENTHYCA** | **3,709,431** | **3,738,187** | **28,756** |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU CYLLIDOL A CHYFALAF** | **27,557,586** | **27,733,621** | **176,035** |
| | | | |
| **Eitemau eraill:** | | | |
| DEL Anghyllidol | 1,237,929 | 1,237,929 | 0 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 35,641 | 35,641 | 0 |
| Anghyllidol | 341,993 | 287,626 | -54,367 |
| Cyfalaf | 1,447,478 | 1,380,354 | -67,124 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **30,620,627** | **30,675,171** | **54,544** |

## 3.1 Trethi Datganoledig

Trethi datganoledig Cymru yw Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac Ardrethi Annomestig. Mae'r rhain yn ariannu tua 20% o wariant Llywodraeth Cymru, a gyda'i gilydd maent yn cyfrannu £5.5bn i gyllideb Cymru yn 2026-27.

Bu newidiadau i'r rhagolygon ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc yn 2026-27. Mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys rhagolwg wedi'i ddiweddaru ar gyfer refeniw o Gyfraddau Treth Incwm Cymru, fel y'i cyhoeddwyd gan yr OBR ochr yn ochr â Chyllideb y DU ym mis Tachwedd.

Cafodd yr addasiadau i grant bloc 2026-27 ar gyfer pob un o'r tair treth ddatganoledig eu pennu gan ddefnyddio rhagolwg hydref yr OBR ar gyfer trethi cyfatebol yn y DU. Mae'r refeniw ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn adlewyrchu rhagolygon diweddaraf yr OBR a gyhoeddwyd yn y Rhagolwg Trethi Cymreig diweddaraf ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Yn gyffredinol, mae'r trethi datganoledig yn darparu budd net i gyllideb Llywodraeth Cymru o £524m yn 2026-27 (gan gynnwys symiau cysoni o flynyddoedd blaenorol). Mae hyn yn gynnydd o £38m o'i gymharu â'r Gyllideb Ddrafft.

### Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Fel y cadarnhawyd adeg y Gyllideb Ddrafft, bydd Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn cael eu pennu yn 10c ym mhob band, gan gadw cydraddoldeb â'r dreth incwm a delir gan drethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Adeg Cyllideb y DU ar 26 Tachwedd, cyhoeddwyd newidiadau i'r dreth a delir ar incwm eiddo o dan dreth incwm. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i Gyfraddau Treth Incwm Cymru, gan gynnwys y gallu i'r Senedd bennu cyfraddau Cymreig ar wahân ar gyfer incwm eiddo os bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i ysgwyddo'r pŵer hwn. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu gwneud ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2027, a dyma'r amser cynharaf y gallai'r Senedd bennu cyfraddau Cymru ar gyfer incwm eiddo ar wahân.

### Y Dreth Trafodiadau Tir

Nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig yn y Gyllideb Derfynol i'r cynigion ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a amlinellwyd adeg y Gyllideb Ddrafft.

### Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Yn dilyn cyhoeddi rhagolygon RPI wedi'u diweddaru gan yr OBR ar 26 Tachwedd 2025, cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi o 1 Ebrill 2026 fydd:

- Y gyfradd safonol - £130.75 y dunnell
- Y gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi - £196.15 y dunnell
- Y gyfradd is - £8.65 y dunnell

Mae'r gyfradd is wedi bod yn destun cynnydd mwy na'r RPI a ragwelwyd, er mwyn amddiffyn rhag twristiaeth gwastraff bosibl rhwng Lloegr a Chymru.

Yng Nghyllideb y DU, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n capio'r gwahaniaeth enwol rhwng cyfraddau is a safonol y Dreth Dirlenwi ar £122.10 y dunnell. Mae'r cynnydd yng nghyfradd is y dreth wedi'i gynllunio i liniaru'r risg y byddai'n fwy deniadol i weithredwyr yn Lloegr anfon gwastraff cyfradd is i safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

Darperir ar gyfer y cyfraddau hyn yn Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025, a wnaed ar 5 Rhagfyr ac a drafodwyd gan y Senedd ar 20 Ionawr 2026.

## Ardrethi Annomestig

Bydd y rhestr ardrethi annomestig nesaf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026, yn dilyn ailbrisiad. Dyma'r ail ailbrisiad a gyflwynir yn ystod tymor y Senedd hon a'r cyntaf ar y cylch tair blynedd a gyflwynwyd fel rhan o'n rhaglen o ddiwygiadau i ardrethi annomestig.

Mae’r dosbarthiad AME o ran ardrethi annomestig ar gyfer 2026-27 wedi gostwng o ganlyniad i’r cynllun rhyddhad trosiannol ar gyfer ardrethi annomestig, a fydd yn cyfyngu ar gynnydd mewn biliau ar ôl yr ailbrisio ar 1 Ebrill 2026. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd yng nghyllid y Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r rhyddhad ardrethi annomestig ychwanegol yn effeithio ar eu cyllid cyffredinol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad trosiannol i'r holl dalwyr ardrethi y bydd eu hatebolrwydd yn cynyddu mwy na £300 yn dilyn ailbrisio 2026. Bydd unrhyw gynnydd o'r fath yn cael ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd. Bydd talwyr ardrethi cymwys yn talu 33% o'u hatebolrwydd ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf (2023-24) a 66% yn yr ail flwyddyn (2024-25), cyn cyrraedd eu hatebolrwydd llawn yn y drydedd flwyddyn (2025-26). Rydym yn darparu £116m dros ddwy flynedd i ariannu'r rhyddhad hwn yn llawn, gan gefnogi holl feysydd y sylfaen drethu mewn ffordd gyson a syml.

O ganlyniad i ailbrisiad 2026, bydd y lluosydd safonol yn cael ei leihau’n sylweddol yn 2026-27, i 0.502. Dyma'r tro cyntaf i'r lluosydd gael ei ostwng yng Nghymru ers 2010. Mae'r lluosyddion ar gyfer 2026-27 wedi'u pennu i sicrhau niwtraliaeth o ran refeniw, gan sicrhau bod y cyfraniad cyffredinol a wneir gan ardrethi annomestig at ariannu gwasanaethau cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal mewn termau real.

Bydd lluosydd manwerthu is yn ailgydbwyso'r system ardrethi annomestig o blaid siopau manwerthu bach i ganolig. Bydd y lluosydd manwerthu newydd yn cael ei osod ar 0.350 ar gyfer 2026-27. Bydd hyn yn lleihau biliau ardrethi annomestig talwyr ardrethi cymwys o tua £20m.

Bydd lluosydd uwch yn codi tâl atodol bach ar yr eiddo mwyaf (yn ôl gwerth) yn y sylfaen drethu, i wrthbwyso'r refeniw a gollir drwy'r lluosydd manwerthu a chefnogi'r amcan polisi cyffredinol. Bydd y lluosydd uwch newydd yn cael ei osod ar 0.515. Mae hyn ychydig yn fwy

nag un geiniog yn y bunt yn uwch na'r lluosydd safonol ar gyfer 2026-27 ac yn sylweddol is na'r lluosydd sy'n gymwys i bob eiddo yn 2025-26.

Mae'r pecyn cymorth hael hwn yn ychwanegol at ein rhyddhadau parhaol sy'n cael eu hariannu'n llawn, ac sydd ar hyn o bryd yn werth £250m bob blwyddyn i fusnesau ac eraill sy'n talu ardrethi. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gefnogi busnesau i adfer ar ôl heriau economaidd diweddar ac i ffynnu wrth symud ymlaen.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn cyflwyno cymorth ychwanegol i dafarnau yn Lloegr, yn dilyn newid polisi o'r hyn a gynhwyswyd yng Nghyllideb y DU ym mis Tachwedd. Nid oes unrhyw fanylion pellach ar gael am y cymorth hwn i'n galluogi i ystyried hyn yn y Gyllideb Derfynol. Fodd bynnag, unwaith y bydd manylion ar gael, byddwn yn gallu ystyried a oes angen cymorth ychwanegol yng Nghymru, y tu hwnt i'r cynlluniau rhyddhad parhaol presennol sydd ar gael i dafarnau a'r sector lletygarwch ehangach.

## 3.2 Grant Bloc

Roedd cyllid ychwanegol ar gyfer 2026-27 yng Nghyllideb y DU ym mis Tachwedd 2025, yn ychwanegol at yr hyn a ddeilliodd o Adolygiad Gwariant yr haf diwethaf ac a gynhwyswyd yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £147m mewn adnoddau cyllidol, gan ystyried addasiadau i'r grant bloc, a £14m mewn cyllid cyfalaf cyffredinol. Amlinellir manylion y rhagolygon ar gyfer addasiadau i'r grant bloc yn atodiad A.

## 3.3 Ffynonellau Cyllid Eraill

Bydd Cymru yn gweld mwy o hyblygrwydd cyllidol yn 2026-27, fel y cyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Llywodraeth y DU. Bydd cynnydd o 10% i'r terfynau benthyca cronfeydd arian parod blynyddol a chyffredinol yn 2026-27, a bydd y terfynau yn cynyddu wedi hynny yn unol â chwyddiant. Bydd gennym fynediad digyfyngiad at Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2026-27 am yr ail flwyddyn yn olynol.

### Benthyca Cyfalaf

Bydd cynnydd o 10% yn ein benthyca cyfalaf yn 2026-27 a bydd y terfynau'n codi wedyn yn unol â chwyddiant. Mae hyn yn golygu y gallwn fenthyg £165m mewn cyllid cyfalaf. Mae'r Gyllideb Derfynol hon yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar fenthyca cyfalaf ar y terfyn o £165m.

### Cronfa Wrth Gefn Cymru

Bydd cynnydd o 10% yn ein terfynau o ran cronfeydd wrth gefn yn 2026-27, a bydd terfynau yn cynyddu yn unol â chwyddiant yn y dyfodol. Unwaith eto, bydd y terfynau tynnu i lawr blynyddol ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cael eu hepgor yn 2026-27. Mae hyn yn golygu y bydd gennym fynediad diderfyn at Gronfa Wrth Gefn Cymru a allai ddal hyd at £385m. Nid yw'r Gyllideb Derfynol hon yn tybio unrhyw dynnu i lawr o'r Gronfa, gan adael unrhyw gyllid sydd ar gael yn y Gronfa i reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn a mynd i'r afael ag unrhyw bwysau annisgwyl neu risgiau na ellir eu rhag-weld.

## 4. Cynlluniau Gwario Diwygiedig Llywodraeth Cymru

### Y cyd-destun

Mae Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2026-27 yn dyrannu mwy na £27.5bn o gyllid. Mae £22.7bn o hyn yn gyllid adnoddau, £3.5bn yn gyfalaf cyffredinol, £130m yn gyfalaf trafodiadau ariannol ac £1.1bn yn ardrethi annomestig. Mae hyn yn golygu bod £1.2bn yn fwy yn cael ei fuddsoddi yn 2026-27 o'i gymharu â 2025-26.

Mae'r newidiadau yn y Gyllideb Derfynol hon yn golygu ein bod yn dyrannu £472m yn fwy o adnoddau cyllidol a chyfalaf nag y gwnaethom adeg y Gyllideb Ddrafft. Fel yr amlinellir ym mhennod 3, mae gostyngiad o £77m yn y dosbarthiad ardrethi annomestig.

Yn y MEGs Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thai a Llywodraeth Leol y mae'r prif gynnydd. Mae hyn yn adlewyrchu ein blaenoriaethau i gefnogi'r GIG a llywodraeth leol, sy'n darparu gwasanaethau hanfodol fel addysg a gofal cymdeithasol.

Rydym yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i MEGs eraill Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r rhagolygon uwch o ran chwyddiant a thwf cyflogau ar gyfer 2026-27. Rydym yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi gwasanaethau bysiau, prentisiaethau, addysg bellach, gwaith atal llifogydd a gwaith cynnal a chadw adeiladau ysgolion.

### Llinellau Sylfaen a'r Gyllideb Ddrafft

Sefydlodd y Gyllideb Ddrafft linell sylfaen o gyllid i bob un o MEGs Llywodraeth Cymru i adlewyrchu penderfyniadau cyllido cylchol a wnaed yn ystod 2025-26. Roedd y rhain yn adlewyrchu'n bennaf gynnydd i gefnogi cyflogwyr y sector cyhoeddus gyda chostau cyfraniadau Yswiriant Gwladol cynyddol ac i gefnogi setliadau cyflog y sector cyhoeddus.

Cafodd pob MEG gynnydd adeg y Gyllideb Ddrafft i adlewyrchu'r rhagolygon chwyddiant a thwf cyflog ar gyfer 2026-27 ar y pryd. Cafodd pob MEG gynnydd o 2.2% i adnoddau cyllidol ar gyfer yr elfennau o'u cyllidebau sy'n ymwneud â chyflogau'r sector cyhoeddus a chynnydd o 2% i adnoddau cyllidol nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, cyfalaf cyffredinol a chyfalaf trafodiadau ariannol.

### Cynnydd yn y Gyllideb Derfynol

Mae cytundeb y Gyllideb Derfynol yn darparu dyraniadau ychwanegol ar gyfer iechyd a llywodraeth leol. Mae £180m o gyllid adnoddau ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi'r GIG. Bydd £112.8m o gyllid adnoddau ychwanegol yn mynd i lywodraeth leol sy'n golygu bod y cyllid cyffredinol a ddarparwn i gynghorau yn cynyddu 4.5% ac y bydd pob awdurdod lleol yn gweld cynnydd o fwy na 4%. Mae'r cyllid ychwanegol yn y ddau faes yn ganlyniad i'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Diwygiodd yr OBR ei rhagolwg ar gyfer chwyddiant a thwf cyflog yn ei Rhagolygon Economaidd a Chyllidol ym mis Tachwedd 2025. Mae'r datchwyddydd GDP ar gyfer 2026-27 wedi cynyddu ers rhagolwg yr OBR ym mis Mawrth i 2.2% ac mae'r CPI (y mynegai prisiau defnyddwyr) a ragwelir hefyd wedi cynyddu i 2.2%. Mae rhagolygon twf cyflogau wedi cynyddu i 3.2% ym mis Tachwedd. Rydym felly'n adlewyrchu'r rhagolygon hyn drwy gynyddu'r cyllid i bob MEG – mae'r cynnydd ar gyfer y MEGs iechyd a gofal cymdeithasol a thai a llywodraeth leol wedi'u cynnwys yn y cyllid a sicrhawyd drwy gytundeb y gyllideb.

Mae dyraniadau adnoddau cyllidol a chyfalaf eraill yn cael eu gwneud i gefnogi meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn ogystal ag i adlewyrchu materion a godwyd yn ystod y broses graffu ar y Gyllideb Ddrafft.

Mae tablau manwl sy'n dangos yr holl newidiadau sy'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Derfynol i'w gweld yn y tablau sy'n ategu'r Cynlluniau Gwario a'r tablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb a gyhoeddwyd ar ein gwefan. Mae'r tablau isod yn dangos y dyraniadau ychwanegol i gyllidebau adnoddau cyllidol, cyfalaf cyffredinol a chyfalaf trafodiadau ariannol.

**Ffigur 4.1: Dyraniadau Adnoddau Cyllidol**

| Adnoddau Cyllidol | £000oedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT | Cytundeb y Gyllideb | Cyllid pellach - chwyddiant a chyflogau | Dyraniadau eraill | Cyllideb Derfynol 2026-27 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 180,000 | - | -100 | 12,602,651 |
| Tai a Llywodraeth Leol (ac eithrio ardrethi annomestig) | 112,800 | 1,490 | 73,111 | 5,877,430 |
| Addysg | - | 8,265 | 5,000 | 1,865,169 |
| Trafnidiaeth | - | 3,820 | 5,000 | 706,194 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | - | 2,431 | 8,000 | 596,535 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | - | 1,858 | 5,000 | 496,986 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | - | 387 | 253 | 144,194 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | - | 3,232 | 4,885 | 453,600 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **292,800** | **21,483** | **101,149** | **22,742,759** |

**Ffigur 4.2: Dyraniadau Cyfalaf Cyffredinol**

| PRIF GRWPIAU GWARIANT | Dyraniadau Ychwanegol | Cyllideb Derfynol 2026-27 |
|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | - | 625,750 |
| Tai a Llywodraeth Leol | - | 1,215,106 |
| Addysg | 20,000 | 401,990 |
| Trafnidiaeth | 10,000 | 561,373 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 10,000 | 322,157 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 4,000 | 316,149 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | - | 18,248 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 3,057 | 21,296 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **47,057** | **3,482,069** |

**Ffigur 4.3: Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol**

| PRIF GRWPIAU GWARIANT | Dyraniadau Ychwanegol | Cyllideb Derfynol 2026-27 |
|---|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | - | - |
| Tai a Llywodraeth Leol | 10,000 | 97,975 |
| Addysg | - | - |
| Trafnidiaeth | - | - |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | - | 10,200 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | - | 30,090 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | - | 1,530 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | - | - |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **10,000** | **139,795** |

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r hinsawdd ariannol yn y GIG yn parhau i fod yn heriol wrth iddo barhau i reoli'r galw cynyddol, lleihau amseroedd aros hir a'r rhestr aros gyffredinol, a wynebu pwysau chwyddiant. Codwyd y materion hyn unwaith eto gan y Senedd yn ystod y broses graffu ac yn ystod ein trafodaethau â rhanddeiliaid. Roedd y pwysau sy'n wynebu'r GIG yn rhan greiddiol o drafodaethau trawsbleidiol ar y gyllideb. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, rydym yn falch o allu dyrannu swm ychwanegol o £180m mewn adnoddau cyllidol i'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn helpu'r GIG i barhau i wella mynediad at ei wasanaethau ac i wella ansawdd y gofal i bawb.

Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y cynnydd yn y gyllideb adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol yn £441m o'i gymharu â 2025-26, sy'n cyfateb i gynnydd o 3.6%. Mae hyn yn rhoi cyfanswm cyllideb adnoddau o £12.6bn i'r adran, sy'n fwy na 55% o gyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru.

## Tai a Llywodraeth Leol

Mae llywodraeth leol yn bartner cyflenwi allweddol, sy'n darparu ystod eang o wasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt ac yn eu defnyddio bob dydd, gan gynnwys gofal cymdeithasol ac ysgolion. Drwy gytundeb y gyllideb, rydym yn darparu £112.8m o gyllid adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol, gan roi sicrwydd a sefydlogrwydd iddynt ar gyfer 2026-27. Mae hyn yn gynnydd cyfartalog o 4.5% a bydd yn sicrhau bod yr holl gynghorau yn gweld cynnydd o fwy na 4% yn eu setliad. Yn 2026-27, bydd awdurdodau lleol yn cael £6.6bn gan Lywodraeth Cymru o'r Grant Cynnal Refeniw ac ar ffurf ardrethi annomestig. Byddant yn cael y cyllid hwn i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol.

Fel rhan o'r pecyn cymorth i awdurdodau lleol, darperir cyllid adnoddau ychwanegol o £65m i'r MEG tai a llywodraeth leol i gefnogi'r cynllun rhyddhad trosiannol ar gyfer ardrethi busnes a gyhoeddwyd ar 3 Rhagfyr 2025. Cyhoeddwyd £5.5m o gyllid ychwanegol hefyd adeg y setliad llywodraeth leol dros dro i gadarnhau'r cyllid gwaelodol ar gyfer cyllid awdurdodau lleol sydd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Ddrafft.

Mae £2.6m o gyllid adnoddau ychwanegol yn cael ei ddarparu i dargedu pwysau ym maes atal a chymorth digartrefedd, gan ddangos ein hymrwymiad i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed sydd mewn perygl o ddigartrefedd. Mae'r cyllid yn cyfrannu at gefnogi sefydlogrwydd y gweithlu rheng flaen a chefnogi'r sector i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae £1.5m o gyllid ychwanegol hefyd ar gael i adlewyrchu'r rhagolwg uwch ar gyfer twf cyflogau mewn meysydd o'r portffolio heblaw llywodraeth leol.

Mae £8m o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael ei ddarparu i'r cynllun Trawsnewid Trefi a fydd yn cynnig cymorth benthyciadau i awdurdodau lleol, sy'n gweithredu fel cyfryngwyr mewn ymateb i geisiadau gan bartneriaid yn y sector preifat. Bydd hyn yn datgloi prosiectau adfywio mewn trefi, gan gyd-fynd â chynlluniau creu lleoedd lleol, ac yn sicrhau mai partneriaid yn y sector preifat fydd yn elwa ar y buddsoddiad yn y pen draw.

Mae £2m o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Gynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £5m y flwyddyn nesaf. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â bwlch yn y farchnad wrth ariannu gwaith uwchraddio ar gyfer effeithlonrwydd ynni a gwresogi glân i berchnogion tai sy'n gallu benthyca ond nad oes ganddynt y cyfalaf parod.

## Addysg

Darperir y rhan fwyaf o gyllid ar gyfer ysgolion yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol drwy'r grant cynnal refeniw. Bydd ychydig dros £4m o'r cynnydd chwyddiannol o £8.3m i'r MEG addysg yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynnydd yn nhâl athrawon mewn colegau addysg bellach ac adrannau chweched dosbarth a ariennir drwy Medr, yn ogystal â thâl mewn cyrff hyd braich eraill.

Bydd £4.2m o gyllid ychwanegol yn cefnogi ysgolion, lleoliadau addysgol eraill ac awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a gwella cysondeb cenedlaethol a darpariaeth gynaliadwy i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn adeiladu ar y £9.1m o gyllid ychwanegol ar gyfer ADY mewn ysgolion a cholegau a gafodd ei fuddsoddi yn y Gyllideb Ddrafft.

Mae £5m arall o gyllid adnoddau ar gael i gefnogi'r cynnydd yng nghyfranogiad dysgwyr mewn addysg bellach.

Mae cynnydd sylweddol o £20m o gyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i'r MEG, a fydd yn cael ei roi i'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i barhau â'r gwaith o wella ansawdd adeiladau ysgolion a cholegau ledled Cymru.

## Trafnidiaeth

Rhoddir cyllid adnoddau ychwanegol o £6m i gefnogi gwasanaethau bysiau yn y Gyllideb Derfynol hon. Mae'r galw am wasanaethau bysiau yn cynyddu ledled Cymru, ond felly hefyd y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau o'r fath. Mae £10m o gyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei ddarparu i fuddsoddi yn y fflyd fysiau a'r depos. Gyda'i gilydd, bydd y cyllid ychwanegol hwn yn diogelu'r gwasanaethau sydd gennym ar waith ar hyn o bryd ac yn sicrhau y gall Trafnidiaeth Cymru barhau i ddarparu gwasanaethau a pharatoi ar gyfer masnachfreinio bysiau.

Mae £2.8m o gyllid adnoddau yn cael ei ddyrannu i wasanaethau rheilffyrdd i gefnogi Trafnidiaeth Cymru gyda phwysau o ran gwasanaethau rheilffyrdd ac i ddiogelu'r gwasanaethau hynny ar gyfer 2026-27.

## Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Bydd cyllid cyfalaf ychwanegol o £3.8m yn cynyddu'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer perygl llifogydd ac erydu arfordirol i'r lefel uchaf erioed o £83.8m, cyfanswm cynnydd o £6.8m ers

2025-26. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ddiogelu cymunedau ledled Cymru rhag y bygythiad o lifogydd, gan ymrwymo mwy na £380m yn nhymor y Senedd hon.

Mae £5m o gyllid adnoddau a chyfalaf yn cael ei ddyrannu ar gyfer ansawdd dŵr i ganolbwyntio ar waith gorfodi fel dull o wella ansawdd dŵr yn ein hafonydd a'n moroedd. Mae hyn yn sicrhau parhad o ran y cyllid a ddarparwyd fel rhan o gytundeb Cyllideb Derfynol 2025-26 ac yn golygu y gallwn adolygu effeithiolrwydd rhai o'r ymyriadau hynny, gan gynnwys gweithgarwch cydymffurfio ychwanegol sy'n seiliedig ar wybodaeth a buddsoddiad mewn systemau ategol a staff gorfodi.

Rydym yn dyrannu cyfanswm o £1.3m i gefnogi a gwella'r sector pysgodfeydd a'n cymunedau arfordirol ledled Cymru. Y bwriad yw canolbwyntio buddsoddiad ar ddiogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd, buddsoddi yn y gweithlu, twf arfordirol a meithrin capasiti, datblygu'r farchnad, gwyddoniaeth a thystiolaeth.

Mae cynnydd o £3.5m o gyllid cyfalaf ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, sy'n golygu cyllideb gyffredinol o £105m wedi'i thargedu i gefnogi ffermwyr i wella perfformiad amgylcheddol ac ariannol eu busnesau yn ystod y broses o gyflwyno’r Cynllun.

Rydym yn dyrannu £5.2m o gyllid adnoddau i Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi ei waith o gyflawni ei swyddogaethau craidd a'i ddyletswyddau statudol.

## Yr Economi, Ynni a Chynllunio

Mae £5m ychwanegol yn cael ei ddarparu i'r rhaglen brentisiaethau i'w galluogi i barhau i greu cyfleoedd cyffrous ac adeiladu ar ein hymrwymiad i greu 100,000 o gyfleoedd prentisiaeth newydd yn ystod tymor y Senedd hon.

Mae cyllid ychwanegol o £1m ar gyfer rhaglen Twf Swyddi Cymru+. Bydd hyn yn darparu cymorth pellach i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae £2.5m o gyllid cyfalaf yn mynd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i wella’r gwaith o storio a gofalu am gasgliadau. Gan mai dyma’r llyfrgell adneuo cyfreithiol genedlaethol yng Nghymru, mae'n gartref i lyfrgell ymchwil helaeth sy'n cynnwys casgliadau o lawysgrifau, celf, ffilm a ffotograffau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae’r Llyfrgell wedi gwneud sawl newid dros y blynyddoedd diwethaf i wella profiad defnyddwyr ac ymwelwyr a bydd y cyllid hwn yn eu galluogi i barhau â hyn.

Bydd cyllid cyfalaf ychwanegol o £0.5m yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant ar gyfer y sectorau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol yn 2026-27. Bydd hyn yn golygu y bydd modd darparu manteision ychwanegol yn ein sectorau lleol sydd wedi gweld galw cryf am fuddsoddiad yn 2025-26.

Rydym hefyd yn cynyddu’r buddsoddiad cyfalaf yng Nghyngor Celfyddydau Cymru drwy roi cymorth o £0.5m i’w gynllun Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn ei raglen Buddsoddi Cyfalaf Strategol i £7.5m. Mae hwn yn gyllid

ychwanegol ar gyfer y seilwaith ffisegol sy'n sail i'n byd celfyddydol cyfoethog. Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu ein bod wedi dyrannu £14.5m o gyfalaf i'n sectorau lleol i gefnogi'r Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant.

Rydym yn buddsoddi £0.5m arall o gyllid cyfalaf mewn cyfleusterau chwaraeon drwy Chwaraeon Cymru, gan ddod â chyfanswm y gyllideb gyfalaf i £11m. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o gyllid ar gael ar gyfer cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru, fel caeau artiffisial 3G, cyrtiau tenis, adnewyddu tai clybiau, sy'n allweddol ar gyfer cynyddu'r lefelau sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.

## Cyfiawnder Cymdeithasol

Mae'r cynnydd chwyddiannol o £0.3m i Gyfiawnder Cymdeithasol yn mynd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Dull Newydd o Wirfoddoli, gan ganolbwyntio ar ddarparu dulliau cyfathrebu cryfach sy'n dathlu gwirfoddolwyr, yn codi proffil gwirfoddoli ac yn ysbrydoli rhagor o bobl i gymryd rhan sut bynnag y gallant.

Mae £0.3m ychwanegol i'r MEG a dderbyniwyd yng Nghyllideb Hydref y DU yn benodol ar gyfer gwasanaethau cynghori ar ddyledion.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (gan gynnwys y Gymraeg)

Yn ogystal â'r cynnydd o £3.2m o ran chwyddiant a chyflogau ar gyfer y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, mae cyllid adnoddau ychwanegol o £4.5m yn cael ei ddyrannu. Bydd cyllidebau adnoddau'r Gymraeg yn gweld cynnydd i adlewyrchu chwyddiant a chyflogau. Bydd cynnydd mewn adnoddau hefyd ar gyfer costau rhedeg canolog Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau a chefnogi'r gwaith o redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae £285,000 ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer casglu trethi gwarediadau tirlenwi sydd heb eu talu, sy'n cynyddu amcanestyniadau refeniw yr OBR ar gyfer y dreth.

Diben y cyllid cyfalaf ychwanegol o £3.1m ar gyfer Cymraeg 20250 yw cefnogi sefydliadau a ariennir gan grant sy'n cyflawni strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg* Llywodraeth Cymru. Bydd y cyllid hwn yn helpu'r Urdd yn bennaf i fwrw ymlaen â'i llif o brosiectau cyfalaf i ehangu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg anffurfiol i blant a phobl ifanc yn ei chanolfannau ledled Cymru. Bydd hefyd yn rhoi cymorth hanfodol i'r Eisteddfod i wella ei galluoedd cynhyrchu ac yn cyfrannu at sefydlu'r corff statudol newydd ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## Newidiadau gweinyddol

Mae sawl cynnydd i linellau gwariant yn y gyllideb (BELs) ar draws pob adran i adlewyrchu'r cynnydd i ragolygon chwyddiant a chyflogau. Hefyd, mae nifer fach o newidiadau gweinyddol eraill fel rhan o'r Gyllideb Derfynol hon. Mae'r manylion isod:

- £100,000 yn symud o'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i ddarparu capasiti ychwanegol o fewn Uned y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, i gefnogi newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Iechyd Meddwl newydd.
- £285,000 o fewn y MEG Addysg yn symud o'r BEL Diwygio Addysg (LAEG) i'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen ddysgu proffesiynol ddiwygiedig ar gyfer arweinwyr ysgolion y dyfodol.
- £352,000 o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn symud o'r BEL Deddfwriaeth, Gweithredu, Llywodraethiant a Chyfathrebu ym maes yr Amgylchedd i'r BEL Rheoli Perygl Llifogydd a Darparu Polisi Dŵr ar gyfer cynllun gweithle amgylcheddol.

## Cyllid heb ei ddyrannu

Nid yw Cyllideb Derfynol 2026-27 yn dyrannu'r holl adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Mae swm bach o gyllid adnoddau yn cael ei adael heb ei ddyrannu i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn a fydd yn codi yn ystod 2026-27.

Roedd cytundeb y gyllideb yn cynnwys cadw £120m o gyllid cyfalaf a fyddai ar gael i'r llywodraeth nesaf ei ddyrannu ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai. Bydd y cyllid hwn ar gael o'r cyfalaf cyffredinol heb ei ddyrannu a chyfalaf pellach a fydd ar gael yn ystod 2026-27 trwy dderbyniadau yn y flwyddyn.

## Dogfennau'r Gyllideb

Mae'r dogfennau canlynol wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn ar y Gyllideb Derfynol ar ein tudalen we Cyllideb Derfynol 2026-27:

- Cynnig y Gyllideb Flynyddol
- Canllaw i'r Gyllideb Derfynol
- Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario
- Tablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL)
- Asesiad Effaith Integredig Strategol
- Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru
- Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Llif Prosiectau
- Dolen i ragolygon yr OBR ar gyfer trethi datganoledig Cymru

## Atodiad A: Rhagolygon refeniw o drethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc

### Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a manylion eu heffaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Mae datganoli trethi yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'r refeniw o drethi datganoledig yn gyfran sylweddol o gyfanswm y cyllid ar gyfer y gyllideb (sef, ynghyd ag ardrethi annomestig, tua 20%). Yn ail, mae gostyngiadau i'r grant gan Lywodraeth y DU, a elwir yn addasiadau i'r grant bloc, yn cyd-fynd â'r refeniw hwn.

Roedd lefel gychwynnol yr addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar y refeniw yng Nghymru o'r dreth berthnasol adeg datganoli. Mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn yr addasiadau yn seiliedig ar dwf yn y ffrydiau refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r mecanweithiau manwl wedi'u nodi yn y Cytundeb ar Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru[3].

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer refeniw o drethi datganoledig a ddefnyddir yn y Gyllideb Derfynol yn rhagolygon a gynhyrchir yn annibynnol gan yr OBR, yn unol â'r cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar ragolygon refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer yr un flwyddyn, eto gan yr OBR.

Mae'r rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru  a'r holl drethi perthnasol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n sail i'r addasiadau i'r grant bloc wedi'u cymryd o Ragolwg Economaidd a Chyllidol yr OBR a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chyllideb Llywodraeth y DU ar 26 Tachwedd 2025. Mae rhagolygon y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'u diweddaru ar gyfer y Gyllideb Derfynol. Mae manylion yr holl ragolygon wedi'u nodi yn y Rhagolwg Trethi Cymreig diweddaraf a gyhoeddir gan yr OBR ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

Mae rhan gyntaf yr atodiad hwn yn nodi effaith net datganoli trethi – y gwahaniaeth rhwng refeniw o drethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc bob blwyddyn.

Gan fod effaith gyllidebol datganoli trethi yn seiliedig ar ragolygon, mae angen proses gysoni unwaith y bydd gwybodaeth alldro flynyddol ar gael. Caiff symiau cysoni eu cymhwyso i'r gyllideb mewn blynyddoedd diweddarach. Mae ail ran yr adroddiad hwn yn dangos y set ddiweddaraf o symiau cysoni.

Mae'r drydedd ran yn nodi sut y mae refeniw, addasiadau i'r grant bloc a symiau cysoni yn effeithio ar y ffynonellau cyllid yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

---

[3] Cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

## Adran 1: Refeniw ac Addasiadau i'r Grant Bloc

Mae'r adran hon yn cynnwys y rhagolygon diweddaraf ar gyfer refeniw o drethi, ochr yn ochr ag alldro ar gyfer blynyddoedd y mae'r alldro ar gael ar eu cyfer. Mae'r rhain wedi'u nodi yn nhabl 1, ynghyd â'r alldro a'r rhagolygon ar gyfer yr addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.

**Tabl A1: Alldro a Rhagolygon Refeniw o Drethi ac Addasiadau i'r Grant Bloc (£m)**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 2,618 | 2,968 | 3,277 | 3,585 | 3,804 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 372 | 270 | 341 | 374 | 399 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 42 | 30 | 34 | 34 | 37 |
| Cyfanswm | **3,032** | **3,268** | **3,652** | **3,993** | **4,240** |
| **Addasiadau i'r Grant Bloc** | | | | | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | -2,535 | -2,782 | -3,020 | -3,251 | -3,444 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -313 | -237 | -283 | -303 | -358 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -25 | -19 | -19 | -21 | -15 |
| **Cyfanswm** | **-2,872** | **-3,038** | **-3,322** | **-3,574** | **-3,816** |
| **Effaith net ar refeniw** | | | | | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | 83 | 187 | 257 | 334 | 360 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 60 | 33 | 58 | 71 | 41 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 17 | 10 | 15 | 14 | 22 |
| **Cyfanswm** | **160** | **230** | **330** | **419** | **423** |

Alldro

Mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer effaith refeniw net trethiant datganoledig yn gadarnhaol, gan gynyddu £193m rhwng yr alldro llawn diweddaraf ar gyfer 2023-24 a'r rhagolwg ar gyfer 2026-27. Rhagwelir y bydd effaith net y trethi datganoledig ar refeniw yn 2026-27 yn fwy na £423m yn gyfan gwbl, gyda chyfraniadau positif gan y tair treth.

## Adran 2: Symiau cysoni

Nid yw gwybodaeth alldro ar gyfer refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) na'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc ond ar gael tua 16 mis ar ôl diwedd y flwyddyn berthnasol. Cyhoeddwyd yr wybodaeth alldro ddiweddaraf ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf eleni.

Mae'r ddwy elfen yn sefydlog at ddibenion cyllidebol gan ddefnyddio rhagolygon yr OBR o'r hydref blaenorol. Cyhoeddwyd nodyn technegol ar y cyd â Thrysorlys EF ar 21 Awst 2025, yn rhoi manylion y symiau cysoni ar gyfer 2023-24. Ar gyfer 2024-25 a 2025-26, amcangyfrifir symiau cysoni gan ddefnyddio'r rhagolwg diweddaraf. Dangosir symiau cysoni gwirioneddol a rhagolygol yn Nhabl 2.

**Tabl A2: Symiau cysoni, alldro a rhagolygon (£m)**

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfraddau Treth Incwm Cymru** | | | | |
| Defnyddir mewn Cyllidebau | | | | |
| Refeniw | 2,478 | 2,795 | 3,171 | 3,462 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc (AGB) | -2,447 | -2,733 | -3,017 | -3,262 |
| Alldro a'r rhagolygon diweddaraf | | | | |
| Refeniw | 2,618 | 2,968 | 3,277 | 3,585 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc | -2,535 | -2,782 | -3,020 | -3,251 |
| Symiau cysoni | | | | |
| Refeniw | 140 | 173 | 106 | 123 |
| Addasiadau i'r Grant Bloc | -87 | -49 | -3 | 11 |
| **Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn** | | | | |
| AGB a ddefnyddir mewn Cyllidebau | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -322 | -241 | -259 | -303 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -27 | -21 | -20 | -21 |
| Alldro'r AGB a'r rhagolygon diweddaraf | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -313 | -237 | -283 | -303 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -25 | -19 | -19 | -21 |
| Symiau cysoni | | | | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 9 | 4 | -24 | |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 2 | 2 | 0 | |

Mae data alldro ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi) a threthi cyfatebol y DU yn fwy amserol ac maent bellach ar gael hyd at 2024-25. Fel yn achos CTIC, gosodir yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn gan ddefnyddio rhagolygon yr hydref blaenorol ond, yn wahanol i CTIC, fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn hefyd. Mae hyn yn golygu bod y symiau cysoni ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc yn tueddu i fod yn gymharol fach. Dangosir y rhain yn Nhabl 2 hefyd. (Nid oes unrhyw gysoni ar gyfer y refeniw o'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn eu hunain, gan fod alldro yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar unwaith.)

## Adran 3: Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd wybodaeth o'r ddwy adran gyntaf i ddangos yr effaith gyffredinol ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Mae'r symiau cysoni ar gyfer refeniw CTIC a'r addasiadau i'r grant bloc yn cael eu cymhwyso i'r Gyllideb dair blynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Felly, mae symiau cysoni 2023-24 yn cael eu cymhwyso i Gyllideb Derfynol 2026-27.

Mae'r cysoniadau ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc sy'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu cymhwyso ddwy flynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Mae symiau cysoni 2024-25 yn cael eu cymhwyso yn 2026-27.

**Tabl A3: Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 (£m)**

| | Cyllideb Derfynol 2026-27 Ionawr 2026 |
|---|---|
| **Refeniw o drethi** | |
| Refeniw CTIC | 3,804 |
| Symiau cysoni refeniw CTIC | 173 |
| Cyfanswm CTIC | 3,977 |
| | |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 399 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 37 |
| **Cyfanswm refeniw trethi datganoledig** | **4,413** |
| **Addasiadau i’r Grant Bloc** | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | -3,444 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -358 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -15 |
| Symiau cysoni o flynyddoedd blaenorol | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | -49 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -24 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 0 |
| Cyfanswm | |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru | -3,493 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | -381 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | -14 |
| **Cyfanswm yr addasiadau i’r grant bloc** | **-3,889** |
| **Cyfanswm yr effaith net ar y gyllideb** | **524** |

Mae effaith net gyffredinol trethi datganoledig ar gyllideb 2026-27 yn fwy na £524m, gan gynnwys symiau cysoni o fwy na £101m mewn perthynas â'r blynyddoedd blaenorol. Mae Ffigur A1 yn dangos effaith gyllidebol net y trethi datganoledig dros amser, gan gynnwys y blynyddoedd i ddod gan ddefnyddio rhagolygon diweddaraf yr OBR. Disgwylir i'r sefyllfa net aros uwchlaw +£500m am weddill y degawd presennol.

**Ffigur A4: Effaith net trethi datganoledig ar Gyllideb Llywodraeth Cymru (£miliwn)**

